Manylion

Teitl yr ymgynghoriad: **Gwasanaethau Plant yn y Dyfodol Digidol**

At: Alun Thomas, Ysgrifennydd, S4C

Enw'r person sy'n ymateb: **Nia Wyn Thomas**

Cynrychiolir (hunan neu sefydliad/au) Teitl Swydd:
Rheolwr Cyffredinol, Teledwyr Annibynnol Cymru (TAC)

Oes modd i chi nodi eich oedran os o dan 16 mlwydd oed: -

Cyfeiriad (os heb ei dderbyn trwy e bost):

Cyfrinachedd / Datganiad

Beth ydych yn dymuno i S4C gadw'n gyfrinachol?

Dim ✓ Enw/Manylion Cyswllt/Teitl Swydd/Oedran

Ymateb Sefydliad

TAC

Teledwyr Annibynnol Cymru
Welsh Independent Producers

Ymateb i Ymgynghoriad Awdurdod S4C ar Sianel deledu newydd i blant

Ffurfiwyd Teledwyr Annibynnol Cymru (TAC) ym 1984 fel cymdeithas fasnach i gynrychioli buddiannau cynhyrchwyr annibynnol sy'n cynhyrchu rhaglenni ar gyfer y darlledwyr Cymreig. 'Rydym yn cynnig ystod eang o wasanaethau gan gynnwys perthnasau diwydiannol. Hefyd 'rydym yn gweithredu fel corff lobïo a chynrychioladol mewn trafodaethau gyda darlledwyr, y llywodraeth, asiantaethau'r llywodraeth ac amrywiaeth o gyrff eraill.

Mae TAC yn croesawu cynlluniau S4C i gyflwyno sianel gwasanaeth cyhoeddus newydd yn yr iaith Gymraeg i blant.

Fe wyddom fod S4C yn un o brif brynwyr rhaglenni gwreiddiol i blant yn y Deyrnas Unedig gyda'r mwyafrif helaeth o'r rhaglenni hynny yn cael eu comisiynu o'r sector annibynnol yng Nghymru. Rydym yn ymfalchïo yng nghyfraniad y sector i lwyddiant ac arlwy'r Sianel a'r ffaith fod S4C a'r hyder i ystyried sefydlu sianel newydd arbenigol.

Mae tystiolaeth i law fod pobl ifanc yn mudo'n fwyfwy o'r prif sianeli teledu i'r sianeli arbenigol hynny sy'n darparu rhaglenni i bobl ifanc yn unig. Mae'r cwmnïau cynhyrchu annibynnol wedi datblygu'r profiad a'r arbenigedd i ddarparu ystod eang o raglenni amrywiol ac o ansawdd uchel yn unol â Strategaeth Rhagoriaeth Greadigol S4C. Mae nifer o gwmnïau cynhyrchu yng Nghymru hefyd yn hynod lwyddiannus ar y llwyfan rhyngwladol ac yn parhau i gyd-gynhyrchu, denu buddsoddiad ac adnoddau a chreu cynnwys rhagorol ar gyfer y farchnad ryngwladol. Prawf pendant o hyn yw'r ffaith bod cwmnïau cynhyrchu yng Nghymru yn llwyddiannus trwy gael eu henwebu, ac ennill prif wobrwyon mewn cystadlaethau Prydeinig a rhyngwladol. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi cydnabod cyfraniad y cwmnïau hyn i economi Cymru drwy ddarparu strwythur ar gyfer cynnig cymorth ariannol drwy Cyllid Cymru ar gyfer datblygu'r Diwydiannau Creadigol.

Byddai sefydlu sianel arbenigol newydd yn cyflwyno her a chyfleoedd masnachol pellach ar gyfer y sector. Yn sgil yr oes ddigidol a'r Telerau Masnach a gytunwyd rhwng TAC ac S4C yn dilyn y Ddeddf Gyfathrebu 2003, bydd y sector yn fwy na pharod i gyfleu cynnwys cydgyfeiriol fydd yn ateb anghenion pobl ifanc. Hoffai TAC weld egwyddorion y Telerau Masnach yn cael eu perthnasu i gyd-gynhyrchiadau i alluogi'r cwmnïau i ymelwa ar eu creadigrwydd a'u buddsoddiad yn natblygiad y prosiectau.

Mae Ofcom, y corff sy'n rheoleiddio cyfathrebiadau yn y Deyrnas Unedig, wedi datgan fod cynnyrch plant yn elfen allweddol o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus ac, ar hyn o bryd, yn cynnal adolygiad o'r genre pwysig hwn. Mae Pact, ein chwaer gorff, eisoes yn ymgyrchu i sicrhau dyfodol cynhyrchu rhaglenni plant o draidd Prydeinig yn dilyn gostyngiad buddsoddiad gan rai darlledwyr masnachol oherwydd pwysau masnachol ac oherwydd argaeledd rhaglenni poblogaidd a rhad o dramor.

Mae'n hanfodol fod ymgynghoriad cynhwysfawr gyda phlant a phobl ifanc ar y mater. Rhaid cofio bod plant hŷn yn fwy tebygol o droi at gyfrifiaduron a'r we yn hytrach nag at deledu. Rhaid manteisio i'r eithaf ar ddulliau cydgyfeiriol i ddenu ac apelio at y grŵp yma a chlustnodi adnoddau i sicrhau bod y gwasanaeth newydd ar gael ar fand llydan a thechnoleg symudol. Rhaid cael cyllid digonol i greu cynnwys gwreiddiol, cyffrous, heriol a safonol ar gyfer y garfan sydd yn ymfalchïo mewn darganfod a defnyddio cyfarpar a thechnoleg sydd ar flaen y gâd.

Mae TAC yn cytuno y dylai rhaglenni plant cael eu cyd-ddarlledu ar y brif sianel a'r sianel newydd gydag ymgyrch i hysbysu ac arwain y plant at y sianel arbenigol fyddai wedi ei rhestru yn adran blant y canllaw rhaglenni electronig. O ddewis, opsiwn 2 fyddai'n apelio, sef darlledu gwasanaeth newydd di-dor 7 diwrnod yr wythnos. Rhaid osgoi gwasanaeth bylchog os oes modd. Bydd hyn yn galluogi'r sector i ganolbwyntio a darparu rhaglenni addas ar gyfer y grŵp darged. Os fydd y gwasanaeth yn cael ei gynnal ar draws dwy sianel, rhaid sicrhau nad yw'r adnoddau yn cael eu rhannu yn rhy eang. Pan fydd y gwasanaeth analog yn cael ei ddiffodd ac, yn sgil colled incwm hysbysebu, pryder cynhyrchwyr yw y bydd y brif gyllideb gyfredol yn cael ei wasgu er mwyn cynnal y gwasanaeth newydd.

Yn ddibynnol ar ganlyniad yr ymgynghoriad a chymeradwyaeth yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon i greu Sianel newydd arbenigol, edrycha'r sector ymlaen at drafodaeth a chyfleoedd masnachol bellach i greu a darparu ystod eang o gynnyrch cydgyfeiriol atyniadol fydd yn apelio at y grŵp darged.

TELEDWYR ANNIBYNNOL CYMRU
WELSH INDEPENDENT PRODUCERS
www.teledwyr.com

Nia Wyn Thomas
Rheolwr Cyffredinol/General Manager
Teledwyr Annibynnol Cymru (**TAC**)
Gronant
Caernarfon
LL55 1NS
T: +44 (0)1286 671123
F: +44 (0)1286 678890
E: post@teledwyr.com